Yr Eglwys yng Nghymru
Cronfa Jiwbili

Cylchlythyr Hydref 2010

Gwaith y Clinig Deintyddol Symudol yn parhau – gyda chymorth yr Eglwys yng Nghymru

Er gwaetha'r holl anawsterau yn Gasa o ganlyniad i'r 'Ymgyrch Haearn Bwrw' ym mis Ionawr 2009 a'r cyfyngu a fu wedi hynny ar fewnforio olew a chyflenwadau meddygol ac angenrheidiau eraill, parhaodd y Clinig Deintyddol Symudol, a ariennir gan yr Eglwys yng Nghymru a'i redeg gan Gyngor Eglwysi'r Dwyrain Agos, i wasanaethu cymunedau rhannau tlotaf Dinas Gasa.

Gweithia'r Clinig Deintyddol Symudol yn ardaloedd Shija'ia a Darraj yn Ninas Gasa. Rhydd ofal deintyddol hefyd i'r rhai a hyfforddir yn nhair canolfan hyfforddi alwedigaethol Cyngor Eglwysi'r Dwyrain Agos.

Yn ogystal â rhoi gwasanaeth deintyddol, bydd y deintyddion hefyd yn sgrinio'r merched beichiog hynny y rhoddir iddynt ofal cyn geni yng Nghanolfannau Iechyd Teulu Cyngor Eglwysi'r Dwyrain Agos a phlant 2.5-6 oed mewn clinigau babanod iach.

Yn 2009, archwiliwyd 5314 o gleifion gan ddeintyddion y Clinig Deintyddol Symudol. Mae'r arian a roddwyd o Gronfa Jiwbilî'r Eglwys yng Nghymru wedi galluogi Cyngor Eglwysi'r Dwyrain Agos i ddarparu gwasanaethau deintyddol am ddim mewn ardaloedd lle nad oes unrhyw ofal deintyddol arall. Y driniaeth ddeintyddol amlaf yn 2009 oedd llanwadau (1453 o achosion), a thynnwyd 490 o ddannedd.

Oherwydd y cyfyngu ar faint o danwydd a gaiff ddod i mewn i Gasa, ni allodd Cyngor Eglwysi'r Dwyrain Agos estyn gofal deintyddol i'r gymuned gyfan, fel y gwnaeth yn y blynyddoedd a fu. Fodd bynnag, gallodd sefydlu clinig deintyddol bychan yn Rafah, yn rhan ddeheuol Gasa, lle y darperir gwasanaethau deintyddol ddwywaith yr wythnos.

Canolfan Iechyd Teulu Shija'ia mewn tŷ ar fenthyg

Ysgrifenna Constantine Dabbagh, ysgrifennydd gweithredol Cyngor Eglwysi'r Dwyrain Agos, mai gweithred drawmatig fu chwalu Clinig Shija'ia gan daflegryn Israelaidd ar 10 Ionawr 2009. Y canlyniad oedd amddifadu'r boblogaeth (70,000) a wasanaethai'r Clinig o ofal iechyd a cholli cyfarpar a chyfleusterau a chofnodion meddygol ac ati.

Ar y cyd â'r gymuned leol, bu ein staff yn chwilio'n ddyfal am le arall a, diolch am hynny, fe gafwyd lle o'r fath a'i addasu at ein hanghenion erbyn 30 Ebrill 2009. O ganlyniad, gallasom fynd ymlaen â holl weithgareddau Canolfan Iechyd Teulu Shija'ia o 2 Mai 2009, diolch i ymdrechion Cenhadaeth y Pab, a dalodd am adnewyddu ac addasu'r tŷ, grantiau oddi wrth CARITAS yn Ffrainc a'r Swistir ac addewid oddi wrth yr Eglwys yng Nghymru y byddai'n talu am gyfarpar yn lle'r cyfarpar a ddinistriwyd ac am foddion a chyflenwadau meddygol.

Yn y tymor hir, derbyniasom gynnig hael oddi wrth Lywodraeth Gwlad Groeg i dalu am adeiladu clinig newydd unwaith y gellir sicrhau darn o dir ac y bydd yr Israeliaid yn barod i ganiatáu i ddeunyddiau adeiladu ddod i mewn i Gasa.

Eglwysi Cymru'n anfon $91000 i ailstocio Canolfan Iechyd Teulu Gasa

Ymatebodd plwyfolion ledled Cymru yn hael i apêl frys Archesgob Cymru am arian i ailstocio Canolfan Iechyd Teulu Shija'ia, yn dilyn ei dinistrio ym mis Ionawr 2009. Codwyd y rhan fwyaf o'r arian mewn boreau coffi a gynhaliwyd dros Sul cyntaf Mai 2009. Cododd grŵp o Fwslimiaid ifainc yng Nghasnewydd £1000 mewn basâr, a bu band a oedd yn chwarae cerddoriaeth Iddewig *klezmer* yn casglu arian yn Llanidloes.

Bore Coffi yn Saint-y-Brid lle'r oedd Jane Hutt AC a Maer Bro Morgannwg yn bresennol.

Datblygiadau yng Nghanolfan Shija'ia

Yn rhannol o ganlyniad i rodd yr Eglwys yng Nghymru, gallodd Cyngor Eglwysi'r Dwyrain Agos osod ei gofnodion meddygol ar gyfrifiadur, yn dilyn colli'r cwbl o gofnodion meddygol Clinig Shija'ia. Yr oedd angen arbennig am hyn i fonitro pethau fel gofal cyn geni, cynllunio teulu, gofal ar ôl geni, ymweliadau â chartrefi a'r clinigau babanod iach a babanod afiach.

Golygai hyn geisio cysylltu â'r holl deuluoedd yn yr ardal — fodd bynnag, amharwyd ar y cynlluniau a'r triniaethau am ddau fis.

Eto, trwy ddefnyddio peth o rodd yr Eglwys yng Nghymru, a chyda chefnogaeth eglwysi Denmarc, dechreuodd Cyngor Eglwysi'r Dwyrain Agos weithredu cynllun maethu brys i geisio lleihau'r achosion mynych o anemia a diffyg maeth ymhlith y 15,000 o blant sydd, fe amcangyfrifir, yn ardal Shija'ia. Yn yr ugain niwrnod wedi dinistrio'r Clinig, dosbarthodd y Cyngor 27,396 pecyn o bowdwr llaeth wrth i weithwyr ymweld yn eu cartrefi â theuluoedd na allent bellach ddod i'r Clinig. Parhaodd y cynllun maethu yn 2010, gan fod yn awr yn Gasa raddfeydd o ddiweithdra a thlodi nas gwelwyd o'r blaen.

Ers mis Ionawr 2009, gwelodd Gasa gynnydd anferthol mewn problemau iechyd meddwl, yn arbennig anhwylder straen yn dilyn trawma. Y mae toriadau trydan mynych a hir a phrinder tanwydd a nwy coginio, a'r cyfan yn cynyddu achosion o straen, yn enwedig ymhlith plant. Cynhelir gwersylloedd haf am bythefnos i blant rhwng 6 a 10 oed sy'n byw yng nghyffiniau Canolfan Iechyd Teulu Shaja'ia lle y darperir cyfleoedd i chwarae ac i dderbyn cwnsela.

Yr Eglwys yng Nghymru Cronfa Jiwbili

Sefydlwyd Cronfa'r Jiwbilî gan Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ym mis Ebrill 2000 gyda'r bwriad o:

- nodi'r Mileniwm trwy greu Cronfa yn yr Eglwys yng Nghymru i ddenu arian newydd i gyllido prosiectau tramor a gefnogir gan eglwysi lleol;
- ymateb i benderfyniadau Cynhadledd Lambeth 1998 ar gyfiawnder economaidd a chyllido cynlluniau datblygu rhyngwladol.

Cododd y Gronfa dros £300,000 a chefnogodd 11 o brosiectau ledled y byd. Ar hyn o bryd, mae'n llwyr ariannu Clinig Deintyddol Symudol Gasa ac y mae'n cynorthwyo Cyngor Eglwysi'r Dwyrain Agos i ailgyflenwi ac ailadeiladu Clinig Iechyd Teulu Shija'ia.

Cronfa Jiwbilî yr Eglwys yng Nghymru

Cydlynydd: Yr Hybarch Philip Morris
☎ 01656 8801088
: archddiacon.margam@eglwysyngnghymru.org.uk
Trysorydd: Mrs Louise Davies, Swyddfeydd yr Eglwys yng Nghymru, 39 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9XF
☎ 029 2034 82288
: louisedavies@eglwysyngnghymru.org.uk

Dylid gwneud sieciau i **Gronfa Jiwbilî yr Eglwys yng Nghymru** a'u hanfon i'r Trysorydd. Os yn bosibl, dylai rhoddion oddi wrth unigolion fod â chymorth rhodd – mae amlenni cymorth rhodd i'w cael oddi wrth y Trysorydd.

Mae angen $40,000 (£26,000) yn 2010 i gynnal Clinig Deintyddol Symudol Cyngor Eglwysi'r Dwyrain Agos.

Ni yn yr Eglwys yng Nghymru yw'r unig rai sy'n ei ariannu.

Heb eich cefnogaeth chwi, amddifedir mwy na 70,000 o bobl Gasa o ofal deintyddol.

Gofynnwch i'ch plwyf roi'n hael.

Diolch!

Dewch â gwên i wyneb pobl Gasa